

... ac Ati – Mai 2011

Le Coup de Lance gan Peter Paul Reubens



“Ie, fi’n sy’n siarad, Le Coup de Lance gan Reubens (1577-1640). Mae copïau ohonof ynghrôg mewn llawer festri ac eglwys. ‘Rwy’n gweld a chlywed y cyfan: miri’r ifanc, chwerthin plant, moliant ac addoliad, trafodaethau a phenderfyniadau diaconiaid ... Trwm a thywyll? Ydw! Mae dweud hynny yn gwbl dderbyniol gennyf. Trwm a thywyll ydwyf, ac felly bum erioed. Diolch i chi am gymryd ennyd i edrych arnaf; prin yw’r bobl, hyd yn oed pobl capel ac eglwys lle rwy’n hongian, sydd yn fy ngweld bellach. Er edrych ganwaith, llawer ohonoch heb fy ngweld yr un waith.

Cymerwch amser i edrych!

Gwelwch y llafn dur - creulon lafn - yn torri trwy gnawd Iesu. Boed i lafn cariad Duw dorri drwy bechod eich bywyd.

Dyma gortyn. Cortyn yn clymu Iesu i’r pren garw. Welwch chi’r cortyn? Boed i Dduw glymu chi’n dynn wrth berchennog y groes hon.

Dyma Iesu, yn welw llwyd. Iesu yn awr y storm chwerwaf. Na, nid oes ynof, hyd yn oed awgrym, o wawr fawr y Trydydd Dydd, ond fe ddaw. Fe ddaw.

Dyma friw gwythiennau, dafnau gwaed ... Boed i chi gynnig mwy na dafnau o’ch byw i Iesu!

Pastwn yn llaw’r cnaf? Welwch chi’r pastwn? Ysgydwodd ergydion y pastwn hwn seiliau’r byd! Boed i Dduw bastyni bob pechod o’ch eiddo, nes curo’ch beiau’n llai na dim.

Dyma goron ddrain. Yn union fel mae’r drain duon yn blodeuo’n wyn, boed i’r goron hon o boen, gwarth ac artaith, flodeuo i chi’n obaith, ffydd a chariad.”